# Prif nodweddion Naturiolaeth

Mae hyn yn golygu bod Naturiolaeth foesegol yn cynnig:

## Bod modd deall termau moesol drwy ddadansoddi'r byd naturiol (empirig)

Hynny yw, gellir deall iaith foesegol drwy gyfeirio at yr hyn a brofwn o'r byd naturiol o'n hamgylch, a'i ddadansoddi'n fanwl. Er enghraifft, rydym i gyd yn deall bod profi caredigrwydd gan rywun arall yn brofiad 'da' a bod profi creulondeb gan rywun arall yn brofiad 'drwg'.

## Bod datganiadau moesegol yn wybyddol a gellir eu dilysu neu eu ffugio (gwybyddol)

Gan fynd ymhellach, mae hyn yn golygu wedyn bod i'n profiadau ystyr oherwydd gallwn eu gwirio, o'n profiadau, fod gweithredoedd caredig yn 'dda' a bod gweithredoedd creulon yn 'ddrwg' oherwydd yr hapusrwydd neu'r dioddefaint a achosir gan y profiadau hyn. Gallwn i gyd wirio hyn ac mae'n golygu'r un fath i bawb.

## Bod datganiadau moesol wedi'u gwirio yn wirioneddau gwrthrychol ac yn hollgyffredinol

Os yw'r disgrifiadau moesegol a'r datganiadau am ein byd yn ystyrlon i bawb, yna mae'n dilyn hefyd eu bod yn wirioneddau gwrthrychol a hollgyffredinol. Os yw'r byd o'n hamgylch yn wrthrychol neu'n real, ei fod yn bodoli'n annibynnol arnom, yna gellir ei ddefnyddio i gadarnhau gwybodaeth a gwirionedd. Yna, gallwn drafod moeseg mewn ffordd ystyrlon a phennu rhai cynigiadau am ymddygiad moesegol da a drwg, er enghraifft bod caredigrwydd yn beth da, oherwydd mae ein profiad o'r byd yn gwirio hyn.

## Bod nodweddion gwrthrychol y byd yn golygu bod cynigiadau yn gywir neu'n anghywir (realaeth foesol)

Os yw'r profiadau hyn yn annibynnol ar y meddwl, yn unffurf ac yn hollgyffredinol, yna

mae hyn hefyd yn golygu bod y datganiadau ‘mae caredigrwydd yn weithred foesegol dda’ ac ‘mae creulondeb yn weithred foesegol ddrwg’ yn wir oherwydd bod y profiadau hyn wedi’u gwreiddio yn nodweddion gwrthrychol y byd o’n hamgylch. Hynny yw, gallwn weld sut mae caredigrwydd yn gweithio mewn gwirionedd. O hyn, gallwn i gyd gytuno bod caredigrwydd yn beth da oherwydd bod y profiadau yn y byd o’n hamgylch yn cadarnhau bod hyn yn wir.

Yr enghraifft glasurol o Naturiolaeth Foesegol fel damcaniaeth foesegol yw Iwtilitariaeth fel y’i cynigiwyd gan Mill. Mae dull gweithredu iwtalitaraidd fel arfer yn Naturiolaidd yn yr ystyr ei fod yn cymhwyso rhesymu moesegol o sail y profiad o hapusrwydd ac mai’r weithred foesegol fwyaf defnyddiol a welir yw’r un sy’n sicrhau’r lefelau uchaf posibl o ‘hapusrwydd neu bleser’. Mae Iwtilitariaid yn dadlau y dylai pawb wneud y peth mwyaf defnyddiol. Ystyrir mai’r peth mwyaf defnyddiol yw gweithred neu weithredoedd sy’n arwain at y lefelau uchaf posibl o hapusrwydd neu bleser. Felly, ystyrir bod gweithredoedd sy’n arwain at yr hapusrwydd mwyaf yn dda. Fodd bynnag, roedd Mill yn ymddiddori’n fawr mewn sefydlu cymdeithas foesegol, nid dim ond arweiniad i unigolion, ac felly gellir dadlau mai cyfraniad pwysicaf Mill oedd y syniad o gyffredinoladwyedd a gyflwynwyd ganddo. Cynigiodd hwn y dylai pawb anelu at hapusrwydd pawb, gan y bydd cynyddu’r hapusrwydd cyffredinol yn cynyddu fy hapusrwydd fy hun. Yna, mae’r ddadl hon yn cefnogi’r syniad y dylai pobl roi lles y grŵp cyn eu lles eu hunain.

## Ateb

Mae Naturiolaeth Foesegol yn dadlau bod i iaith foesegol ystyr wybyddol oherwydd mae’n cyfeirio’n uniongyrchol at yr hyn a brofwn a all, felly, gael ei wirio. Felly, mae iaith foesegol yn wrthrychol ac annibynnol ar y meddwl, neu, yn cyfateb i realiti. Er enghraifft, mae Iwtilitariaeth yn dadlau mai’r weithred foesegol fwyaf defnyddiol yw’r un sy’n creu’r lefelau uchaf posibl o ’hapusrwydd neu bleser’. Felly, gallwn i gyd weld bod ‘creulondeb yn weithred foesegol ddrwg’ oherwydd gwyddom ei fod yn achosi dioddefaint ac anhapusrwydd pan welwn hyn yn digwydd yn y byd empirig

# Datblygiad F. H. Bradley o Naturiolaeth

Man cychwyn Bradley o ran moeseg, yn ôl Mary Warnock, yw ei fod yn cydnabod cyfres benodol o 'ffeithiau': 'y ffaith ein bod yn aml yn teimlo rhyw fath o rwymedigaeth arnom' neu'r ffaith 'ein bod wedi methu'n foesol mewn rhyw ffordd neu'i gilydd'. Y sylfaen hon, i Bradley, oedd ffaith 'ymwybyddiaeth foesol' a oedd yn uno pawb a bod pob nod o hunansylweddoli yn cyflawni diben yr hyn y mae'n ei alw'n yr hunan cyfan, hynny yw, cymdeithas. Mae cysyniad Bradley o hunansylweddoli, yn ôl Mary Warnock, 'wedi'i gyfeirio dros amser at ffordd o fyw, system o weithredoedd cydgysylltiedig'. Hynny yw, caiff gweithredoedd moesol rhywun eu barnu dros gyfnod o amser ac fel rhan o'i weithredoedd yn gyffredinol. Mae moesoldeb yn dod yn weithred hunanddatganiad neu hunanfynegiant.

Yn ôl Bradley, mae dyletswydd safle unigol rhywun yn cyflawni gwaith cyffredinol; drwy hunanaberth mae'r hunan yn cael ei adfer. Hynny yw, drwy wireddu eich safle a'i ddyletswyddau o fewn yr organeb foesol gyfan rydym yn gwireddu pwy ydym a sut beth yw ymddwyn yn foesegol. Caiff hyn ei gyflawni nid drwy ragdueddiad biolegol yn unig, ond o dan ddylanwad mawr yr amgylchedd o'n hamgylch wrth i ni dyfu a datblygu.

Felly, mewn perthynas â geiriad y Fanyleb:

## Mae brawddegau moesegol yn mynegi cynigiadau

Yn ôl ysgrif Bradley, mae brawddegau moesegol yn wybyddol (gwiriadwy) a hefyd yn ystyrlon am eu bod yn ymwneud â'r byd hwn ac nad ydynt yn rhan o ryw gydwybod sythweledol, haniaethol. Mae brawddegau moesegol yn portreadu rhyngweithio â'n byd ac yn cydnabod ein bod yn rhan o gyfanrwydd. Yn ôl Bradley, gan fod 'safle' a 'dyletswydd' asiant i'w canfod yn y byd empirig mae natur datganiadau moesegol a fynegir yn wiriadwy (gwybyddol) ac yn ymwneud â ffeithiau'r byd rydym yn byw ynddo (mae Bradley yn dilyn Hegel ac yn cyfeirio at hyn fel y 'cyffredinol ddiriaethol'). Fodd bynnag, mae Bradley yn amlwg yn gweld mai drwy'r elfen sy'n ymwneud â dyletswydd yr eir y tu hwnt i'r cysyniad Kantaidd o 'wybodaeth a priori', ond ei fod wedi'i wreiddio'n

gadarn yn y profiad o'r byd real. Mae ein lle a'n rôl yn y gymuned hanesyddol yn rhoi sylfaen arsylwadwy a mesuradwy i ni er mwyn cael bywyd boddhaus. Ein nod yw sylweddoli ein gwir hunan, rydym yn dod i'w adnabod (drwy arsylwi) yn y teulu a'r gymuned, ac addasu gwerthoedd ein cymdeithas – a gwerthoedd cymdeithasau eraill sy'n cynnig beirniadaeth gadarn o'n cymdeithas ni.

## Mae nodweddion gwrthrychol y byd yn golygu bod cynigiadau yn gywir neu'n anghywir

Mae ysgrif Bradley yn cydnabod y gall ein hadnabyddiaeth o gymdeithas o'n hamgylch haeru, cadarnhau neu wadu honiadau cynigiadau moesegol mewn perthynas â dod o hyd i'ch safle mewn bywyd a'i sylweddoli yn unol â'r broses o hunansylweddoli.

## Gellir ystyried datganiadau metafoesegol yn nhermau gwyddoniaeth

Gellir llunio barn foesegol yn seiliedig ar werth o fewn paramedrau'r byd empirig heb unrhyw apêl y tu hwnt i hyn. Mae penderfyniadau moesegol yn rhan o'r broses o hunansylweddoli, o ymgysylltu â'r cyfanrwydd, a dod yn rhan ohono, drwy dderbyn y realiti 'diriaethol' drwy ddod o hyd i'ch lle neu safle'ch dyletswydd eich hun o fewn yr organeb gyfan. Y broses gymdeithasol ryngweithredol hon yw'r agwedd hollbwysig i Bradley.